Dŵr Cymru
Welsh Water

# Amodau a thelerau safonol ar gyfer darparu gwybodaeth o gofnodwr data ar lein ar gyfer Adwerthwr

dwrcymru.com

# Amodau a thelerau ar gyfer darparu gwybodaeth o gofnodwr data ar lein

## Cynnwys

Amodau a thelerau ar gyfer darparu gwybodaeth o gofnodwr data ar lein ........ 2
Rheoli Fersiynau ........ 2
1.0 Diffiniadau a Dehongliadau ........ 3
2.0 Cais trwy'r Wefan i gyrchu data a Dechrau'r Gwasanaeth ........ 3
3.0 Y Taliadau ........ 3
4.0 Darparu Gwasanaethau ........ 3
5.0 Terfynu ........ 4
6.0 Atebolrwydd ........ 4

## Rheoli Fersiynau

| Rhif a Dyddiad y Fersiwn | Addasiadau i'r cyhoeddiad blaenorol |
|---|---|
| 4.0 – 22 Mawrth 2021 | Ychwanegu tabl Cynnwys a rheoli fersiynau a diweddaru'r hyperddolenni |
| 5.0 – 20 Ionawr 2022 | Diwygio'r Diffiniadau i ddisodli Gwasanaethau Ychwanegu Gwerth â'r Ddogfen Tariffau Cyfanwerthu |
| 6.0 – 21 Chwefror 2023 | Diweddariad i'r Ddogfen Taliadau Cyfanwerthu |
| 7.0 – 02 Ionawr 2024 | Diweddaru'r linciau i wefannau |

# 1.0 Diffiniadau a Dehongliadau

Yn y ddogfen hon, mae i'r geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron a ganlyn oni bai bod hynny'n anghyson â'r cyd-destun.

**Adwerthwr** yw deiliad Awdurdod Adwerthu Cyfyngedig (awdurdod a disgrifir ym Mharagraff 6 o atodlen 2A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 h.y. awdurdod i ddefnyddio systemau cyflenwi Ymgymerydd sy'n gyfangwbl neu'n rhannol yng Nghymru at ddibenion caniatáu i'r Adwerthwr gyflenwi Gwasanaethau Adwerthu ar gyfer Safleoedd Cymwys sy'n defnyddio 50 megalitr neu ragor o ddŵr y flwyddyn).

**Amserlen Bilio** yw'r amserlen a gyhoeddwyd ar dudalennau Cyfanwerthu gwefan DCWW.

**Cofnodwr Data DCWW** yw Cofnodwr Data sy'n eiddo i Fusnes Cyfanwerthu DCWW.

**Cyfarpar DCWW** yw mesurydd neu fesuryddion DCWW sy'n cofnodi'r defnydd o ddŵr ac unrhyw gyfarpar dŵr cysylltiedig, gan gynnwys y ffitiadau angenrheidiol i hwyluso Cofnodi Data gan fusnes Cyfanwerthu DCWW.

**DCWW** yw Dŵr Cymru Cyfyngedig ac unrhyw aelodau o staff sydd yng nghyflogaeth uniongyrchol DCWW neu gontractwyr sy'n gweithredu ar ran DCWW.

**Gwasanaethau** yw darparu mynediad ar lein at wybodaeth cofnodwr data graffigol.

**Tâl** yw'r tâl/taliadau am wasanaethau a ddisgrifir yn Nogfen Taliadau Cyfanwerthu cyhoeddedig DCWW

# 2.0 Cais trwy'r Wefan i gyrchu data a Dechrau'r Gwasanaeth

2.1 Bydd yr Adwerthwr yn cyflwyno ffurflen S/01 i DCWW.

2.2 Cyn pen pump Diwrnod Busnes ar ôl i ffurflen S/01 gyflawn ddod i law, bydd DCWW yn hysbysu'r Adwerthwr am y manylion mewngofnodi i'r system er mwyn cyrchu'r data ar lein.

# 3.0 Y Taliadau

3.1 Bydd DCWW yn anfon anfoneb at yr Adwerthwr yn unol â'i Amserlen Bilio.

3.2 Os na ddaw taliadau i law yn unol â Chodau'r Farchnad, caiff mynediad at y data ei ddileu heb rybudd.

# 4.0 Darparu Gwasanaethau

4.1 Gosodir Cofnodwr Data DCWW ar fesurydd gweithredol DCWW sy'n cael ei ddefnyddio am resymau gweithredol, rheoliadol neu'r rhwydwaith, a gellir ei dynnu unrhyw bryd heb rybudd.

4.2 Os bydd Cofnodwr Data yn diffygio neu'r data'n stopio cael ei drosglwyddo, nid yw DCWW yn cynnig unrhyw warant o ran pryd nac os caiff yr Adwerthwr ei hysbysu am y diffyg a/neu y caiff ei gywiro.

4.3 Os oes ar Gwsmer neu Adwerthwr angen gwarant am ddata parhaus, yna fe'u cynghorir i osod eu Cofnodwr Data eu hunain.

## 5.0 Terfynu

5.1 Gall DCWW derfynu'r Gwasanaethau hyn heb rybudd os yw'n penderfynu tynnu Cofnodwr Data DCWW o'i fesurydd am resymau gweithredol neu os oes diffyg arno.

5.2 Bydd DCWW yn terfynu gallu'r Adwerthwr i gyrchu'r data ar lein os bydd yr Adwerthwr yn peidio â bod yn Adwerthwr ar gyfer safle'r cwsmer.

5.3 Gall yr Adwerthwr benderfynu ei fod am roi'r gorau i dderbyn y Gwasanaethau unrhyw bryd. Y dyddiad terfynu fydd y dyddiad pan ddaw'r hysbysiad terfynu i law Canolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu DCWW.

## 6.0 Atebolrwydd

6.1 Ni fydd DCWW yn atebol am unrhyw golledion, iawndal neu dreuliau y mae'r Adwerthwr neu ei gwsmeriaid yn eu tynnu o ganlyniad i'r ffaith fod Cofnodwr Data DCWW yn rhoi gwybodaeth sy'n anghywir a/neu oherwydd diffyg neu dynnu Cofnodwr Data DCWW.